

Canllawiau Cannabidiol (CBD)

Canllawiau i fusnesau ar ganabidiol (CBD) fel bwyd newydd.

Mae CBD yn un o lawer o gemegion a elwir yn cannabinoidiau. Mae i'w gael o fewn hemp a chanabis.

Gall rhin CBD ddeillio o'r rhan fwyaf o blanhigion hemp/canabis. Caiff ei hechdynnu'n ddetholus, gan ddarparu crynodiad CBD a thynnu neu leihau cydrannau cemegol eraill. Mae'r broses hon yn golygu bod y cynnyrch terfynol yn wahanol i hemp.

Nid yw hemp a chynhyrchion cysylltiedig, fel olewau wedi'u gwasgu'n oer, yn fwydydd newydd oherwydd bod tystiolaeth i ddangos bod pobl wedi'u defnyddio cyn mis Mai 1997. Nid yw hyn yn wir am rin CBD.

Statws CBD fel bwyd newydd

Cadarnhawyd statws rhin CBD fel bwyd newydd ym mis Ionawr 2019, ac mae'r Catalog Bwydydd Newydd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newid hwn.

Mae'r [Catalog Bwydydd Newydd](#) yn ffordd o gofnodi penderfyniadau a wneir ar statws gwahanol fwydydd ac atchwanegiadau bwyd fel bwyd newydd. Nid oes gan y catalog ei hun statws cyfreithiol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn defnyddio'r adnodd hwn i ddangos y penderfyniadau a wneir ar statws bwyd newydd a'r penderfyniadau hyn sydd â statws cyfreithiol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n glir bod cynhyrchion CBD wedi'i unigo (isolate) a rhin CBD yn fwydydd newydd yn ôl y gyfraith.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynhyrchion CBD wedi'i unigo na rhin CBD awdurdodedig ar y farchnad.

Gwneud cais am awdurdodiad

Dylai busnesau bwyd [wneud cais i awdurdodi eu cynhyrchion CBD wedi'u hunigo](#) a rhin CBD. Dyma'r unig lwybr i gydymffurfio mewn perthynas â'r cynhyrchion CBD hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion gall hyn fod y gwneuthurwr, ond gall eraill fel cyrff masnach a chyflenwyr eraill wneud cais hefyd. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yn rhaid cynnwys y cynhyrchion CBD newydd penodol rydych chi'n eu gwerthu yn eich cais a rhaid eu gwneud yr un ffordd ag y nodir yn y cais. Fodd bynnag, gall rhywun arall, fel eich cyflenwr, wneud y cais.

Gellir cyflwyno ceisiadau drwy ddilyn y dolenni ar ein tudalen Bwyd Newydd ac nid oes ffi ar gyfer hyn. Yn ogystal â'u cyflwyno nhw i'r Comisiwn Ewropeaidd fel arfer, rydym ni'n argymhell yn gryf fod busnesau hefyd yn eu hanfon nhw atom ni i'w hystyried. Yna, fe allwn ni roi canllawiau i fusnesau ac ateb unrhyw ymholiadau y gall fod gennym ni, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu prosesu'n gyflym i'w hawdurdodi yn y DU o 1 Ionawr 2021. Os oes gennych chi gais yn barod i'w anfon atom ni, cysylltwch â ni drwy novelfoods@food.gov.uk

Dyddiad cau i fusnesau gael eu ceisiadau CBD wedi'u dilysu

Mae angen i fusnesau gyflwyno a chael eu ceisiadau awdurdodi bwyd newydd wedi'u dilysu erbyn 31 Mawrth 2021. Ar ôl y dyddiad hwn, dim ond cynhyrchion y mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd gais dilys ar eu cyfer a ganiateir i aros ar y farchnad.

Rydym ni wedi cynghori awdurdodau lleol y gall busnesau barhau i werthu eu cynhyrchion CBD presennol yn ystod yr amser hwn, ar yr amod nad ydynt wedi'u labelu'n anghywir, nad ydynt yn anniogel ac nad ydynt yn cynnwys sylweddau sy'n dod o dan ddeddfwriaeth cyffuriau. Fodd bynnag, ni ddylid gwerthu unrhyw gynhyrchion CBD wedi'i unigo na rhin CBD newydd nes bod yr awdurdodiad angenrheidiol ganddynt.

Mae'r dyddiad cau yn berthnasol yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon Mae rheoliadau bwyd newydd yn yr Alban yn dod o dan [Safonau Bwyd yr Alban](#).

Ymgynghoriadau Erthygl 4

Mae Erthygl 4 y Rheoliadau Bwydydd Newydd yn darparu proses ymgynghori i fusnes wirio a yw ei gynnyrch yn newydd ai peidio. Nid yw cyflwyno cais dan ymgynghoriad Erthygl 4 yn golygu bod unrhyw fwyd newydd, gan gynnwys CBD, yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Nid yw cyflwyno cais dan Erthygl 4 yn golygu y caniateir cynhyrchion newydd heb eu hawdurdodi ar y farchnad. Os yw busnes yn cyflwyno cais dan Erthygl 4, disgwylir iddo beidio â rhoi'r cynhyrchion ar y farchnad nes bydd yn cael ateb. Nid dyma sydd wedi digwydd gyda chynhyrchion rhin CBD gan fod cannoedd o gynhyrchion ar y farchnad heb awdurdodiad.

Ni fydd cyflwyno cais dan Erthygl 4 yn newid unrhyw safbwynt gorfodi ac nid yw'n cynnig unrhyw amddiffyniad rhag gorfodi yn erbyn bwydydd newydd heb eu hawdurdodi a roddir ar y farchnad.

Os oes unrhyw fusnes yn credu bod ganddynt dystiolaeth o'u cynhyrchion rhin CBD yn cael eu defnyddio cyn mis Mai 1997, dylent ddilyn y broses ymgynghori ar y [dudalen bwydydd newydd](#).

Diogelwch cynhyrchion CBD

Rydym ni wedi cyhoeddi cyngor i ddefnyddwyr ar ddefnyddio CBD ar gyfer oedolion iach a grwpiau sy'n agored i niwed.

Dylai gwerthwyr CBD fod yn ymwybodol o'r wybodaeth hon a gallu hysbysu defnyddwyr am y dos a argymhellir ar gyfer oedolion iach, a'r risg bosibl i'r rheiny sy'n feichiog, yn bwydo ar y fron neu'n cymryd meddyginiaeth.

Cyrff masnach

Rydym ni wedi trafod CBD gydag amrywiol gyrff masnach a llawer o sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r diwydiant bwyd newydd a CBD. Byddwn ni'n parhau i wneud hynny. Er ei bod yn bwysig ein bod yn deall eu barn, nid ydym mewn unrhyw ffordd wedi cymeradwyo dull unrhyw gorff masnach penodol tuag at gydymffurfio mewn perthynas â chynhyrchion rhin CBD.

Nid oes unrhyw gytundebau penodol â chyrrff masnach unigol ac mae pob busnes sy'n marchnata cynhyrchion CBD newydd yn cael eu trin yr un fath.